



↪ Siarad â phobl hŷn am arian

Helpwr
↪ **Arian**



Llywodraeth EM

Helpwr ↪ Arian

Mae HelpwrArian yma i wneud eich arian a ch dewisiadau pensiwn yn gliriach. Yma i dorri trwy'r cymhlethdod, egluro beth sydd angen i chi ei wneud a sut y gallwch chi ei wneud. Yma i ch rhoi mewn rheolaeth gyda chanllawiau diduedd sydd wedi u cefnogi gan y llywodraeth ac i argymell cymorth pellach y gellir

ymddiried ynddo os bydd ei angen arnoch. Am help clir gydag arian sydd ar eich ochr chi ac yn rhad ac am ddim i w ddefnyddio, chwiliwch am MoneyHelper.

www.helpwrarian.org.uk

Siarad â rhywun am ofal tymor hir

Yn ôl Independent Age, er bod 82% o bobl yn credu ei bod yn bwysig siarad â pherthynas hŷn am ble yr hoffent fyw pe na allent fyw gartref mwyach, dim ond 23% o bobl sydd wedi trafod hyn gyda'u hanwyliaid mewngwirionedd

Ery bydd rhai pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi, bydd angen y gefnogaeth ychwanegol a gynigir gan ofal preswyl ar rai.

Mae meddwl am orfod gadael eich cartref yn un o'r materion anoddaf i'w wynebu, felly gallai fod yn sgwrs anhygoel o anodd ei chael. Gall gadael emosiwn allan ohono fod yn anodd oherwydd y newidiadau enfawr mewn bywyd o'ch blaen - i chi a'ch perthynas.

Y prif beth yw, gorau po gyntaf y byddwch chi'n siarad amdano. Peidiwch â'i adael i'r pwynt pan fydd angen gofal brys ar eich perthynas. Efallai nad yr unig ddewisiadau sydd ar gael yw'r hyn yr oeddent ei eisiau mewn gwirionedd a gallai hyn wneud pethau'n fwy o straen i bawb sy'n cymryd rhan.

Ymhlith y pethau y gallech chi eu trafod mae:

- Pwy fydd yn gofalu amdanynt pan fyddant yn hŷn?
- Ble hoffent fyw os na allant fyw gartref mwyach?
- Pwy efallai yr hoffent iddynt wneud penderfyniadau drostynt os na allant wneud hynny mwyach?
- Beth yw eu gweledigaeth o sut olwg fydd ar eu gofal diwedd oes?
- A ydyn nhw'n cael trafferth â'u cyllid? Os felly, beth hoffent ei wneud amdano?
- A ydyn nhw'n profi anawsterau gyda'u cof?

Beth yw'r ffordd orau i ddechrau'r sgwrs

Cadwch bethau'n gyffredinol. Siaradwch am eraill sydd wedi bod trwy brofiadau tebyg yn ddiweddar yn ymwneud â gofal a sut maen nhw'n delio ag ef - y da a'r drwg.

Fe allech chi siarad am yr hyn y byddech chi ei eisiau pan fyddwch chi'n hŷn fel bod y sgwrs yn parhau i fod yn agored ac yn gynhwysol.

Os byddwch chi'n codi'r pwnc yn ddigon buan, gallwch chi siarad yn gyffredinol iawn am gartrefi gofal. Gallwch fesur dymuniadau eich rhieni wedyn, fel y gallwch ymddwyn yn briodol pan ddaw'r amser.

Siarad â sibliŋgiaid am ofal tymorhir i rieni

Os oes gennych sibliŋgiaid, efallai y bydd angen sgwrs ar wahân arnoch ar y ffordd orau i weithio gyda'ch gilydd i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau dros ofal eich rhieni wedi'u nodi'n glir.

Os yw'r cyfrifoldeb yn disgyn ar un sibliŋg, byddai'n hawdd iddynt ddigio wrth y lleill, a gallai'r rhai nad ydynt yn rhoi'r gofal deimlo'n euog am fethu â helpu cymaint.

Efallai y byddwch yn atal problemau ynghylch perthynas yn ddiweddarach trwy siarad am yr hyn sy'n bosibl ac yn ymarferol i'w roi fel bod pawb yn glir.

Gallai pethau sy'n dda i gytuno arnynt ymlaen llaw fod:

- Pwy fydd yn dweud wrth eich rhiant os ydych chi'n teimlo bod yr amser wedi dod iddyn nhw symud i ofal preswyl?
- Pwy fydd yn cymryd y cyfrifoldeb am drefnu symud i ofal?
- Pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am alwadau ffôn o'r cartref gofal?
- Sut fyddwch chi'n rhannu cyfrifoldebau ymweld?

Ystyriwch siarad am gontract gofal i'r teulu, lle mae'r aelod o'r teulu sy'n cymryd cyfrifoldeb am y rhieni oedrannus yn cael ei dalu o arian y teulu. Gallai hyn leihau drwgdeimlad ac mae'n cynnig buddion eraill:

- caniatáu i'ch rhieni aros gartref
- derbyn gofal o safon
- gwerthfawr yn ariannol i'r unigolyn sy'n darparu'r gofal hwnnw.

Cofiwch fod contract gofal i'r teulu yn ddogfen sy'n rhwymol o dan y gyfraith felly dylai'r gofalwr a'r sibliŋgiaid eraill ddeall goblygiadau'r hyn sydd dan sylw cyn sefydlu un. Gall fod cymhlethdodau yn y dyfodol hefyd os bydd eich anwylyd yn dod yn gymwys i gael taliadau uniongyrchol am ofal gan fod rheolau gwahanol ynglŷn â chyflogi aelodau'r teulu gan ddiwynnu ar ble rydych chi'n byw yn y DU. Gallwch ddysgu rhagor ar [wefan Carers UK](#).

Siarad am dalu am ffioedd cartref gofal

Yn ôl yr Adroddiad Dim Lle Fel Cartref gan yr Hyb Gofal Byw yn y Cartref, dywedodd bron i hanner y bobl y gallai, neu fod, peidio â gwybod sut i gychwyn y sgwrs, wedi eu hatal rhag cael trafodaeth gyda'u teulu. Ond mae ychydig llai na dau y cant wedi siarad â chynghorydd ariannol am gostau gofal.

Gall penderfynu ar y ffordd orau i dalu am ffioedd cartref gofal fod yn gymhleth iawn ac mae'n werth cynllunio ymlaen llaw. Mae gan Helpwr Ariannol lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gynllunio ar gyfer costau gofal a allai fod yn ddefnyddiol i chi, gan gynnwys:

[Sut i ariannu eich gofal tymor hir - Canllaw i ddechreuwyd ddechreuwyd](#)

[Talu am ofal](#)

[Budd-daliadau y gallwch eu hawlio os oes gennych gennychnghenion gennychnghenion gofal Anghenion](#)

Hefyd mae gan Independent Age [ganllaw defnyddiol iawn](#) ar sut i gael sgysiau gyda pherthynas oedrannus y gallech edrych arno, gan gynnwys awgrymiadau ymarferol a chynghor ar sut i wneud penderfyniadau pwysig.

Siarad â rhywun am atwrneiaeth

Wrth i ni weld pobl sy'n agos atom ni'n heneiddio gallwn ni ddechrau poeni am sut y byddan nhw'n gwneud penderfyniadau ariannol da yn y dyfodol, yn arbennig os ydyn nhw'n colli galluedd meddyliol.

Yn ôl Cymdeithas Alzheimer's, mae un o bob 14 o bobl yn y DU yn byw gyda dementia ac ar ôl 80 oed mae hyn yn codi i un o bob chwech, gan ei gwneud yn broblem real iawn y mae miloedd o deuluoedd yn ei hwynebu bob dydd.

Un o'r sgysiau pwysicaf y gallwn eu cael i helpu ein perthnasau hyn yw siarad â nhw am sut y byddent am i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch eu heiddo a'u cyllid pe na byddent yn gallu eu gwneud drostynt eu hunain mwyach. Yr amser gorau i wneud hyn yw pan fyddant yn teimlo'n ffit, yn dda ac yn gallu dweud beth yr hoffent ddigwydd.

Wrth gwrs, mae llawer o ffyrdd y gallwch chi helpu rhywun i gadw ar ben eu biliau a phenderfyniadau ariannol bob dydd trwy gynnig agor post, helpu gyda gwaith papur neu fynd gyda nhw i apwyntiadau yn y banc neu'r gymdeithas adeiladu. Am ffyrdd y gallwch wneud hyn gweler ein canllaw [Sut i helpu rhywun i reoli eu harian yn anffurfiol](#).

Os bydd rhaid iddynt dreulio amser hir yn yr ysbyty a fyddai'n gwneud penderfyniadau ariannol yn anodd, fe allech chi siarad am sefydlu atwrneiaeth gyffredin. Trefniant dros dro yw hwn sy'n eich galluogi chi neu berson a enwir i edrych ar ôl eu harian tra na allant ymdopi. I ddysgu rhagor gweler ein canllaw [Paratoi ar gyfer henaint, salwch a marwolaeth](#).

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod eich anwylyd yn cael ei amddiffyn pe byddent yn colli galluedd meddyliol, fe allech chi geisio siarad â nhw am sefydlu atwrneiaeth barhaol. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithiol i berson a enwir wneud penderfyniadau ariannol pwysig ar ran rhywun os nad yw'n gallu ei wneud ei hun. Mae fel arfer yn cychwyn pan fyddant yn colli galluedd meddyliol - ond gall gychwyn pryd bynnag y maent yn dewis iddi ddechrau.

Mae aros nes bod rhywun wedi colli galluedd meddyliol cyn sefydlu atwrneiaeth barhaol yn gwneud pethau'n llawer mwy cymhleth a gall ohirio penderfyniadau brys, fel talu am ffioedd cartref gofal. Byddai angen i chi gael prawf meddygol nad oes gan y person alluedd meddyliol mwyach, yna gofyn i'r llys benodi rhywun i oruchwylio ei faterion. Mae'n ddrud ac efallai y bydd eich anwylyd yn y pen draw yn cael rhywun yn gwneud penderfyniadau am eu bywyd na fyddent erioed wedi'u dewis.

Gall sgysiau am bŵer atwrnai gael eu sbarduno gan:

- Gweld taflen, cynllun plot sioe deledu neu erthygl papur newydd ar y pwnc.
- Rhywbeth perthnasol yn digwydd yn eich bywyd, sy'n golygu y gallwch ofyn cwestiynau arweiniol, fel; 'Mae mam fy ffrind yn ystyried symud i gartref gofal. A yw hynny'n rhywbeth y byddech chi am ei wneud pan fyddwch chi'n heneiddio?'
- Rhoddir diagnosis meddygol i'ch anwylyd a allai olygu y bydd ei allu meddyliol yn dirywio.
- Gwneud ewyllys. Efallai y bydd nawr yn amser da i'w hannog i ystyried atwrneiaeth barhaol.



Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n parchu barn eich anwylyd ac yn ei gwneud hi'n glir nad ydych chi'n ceisio cymryd drosodd eu materion ariannol. Fodd bynnag, mae'n werth esbonio:

- Efallai y byddai'n well ganddyn nhw i rywun maen nhw'n ei garu (chi) wneud penderfyniadau drostyn nhw, yn hytrach na dieithryn.
- Nid yw ei sefydlu'n golygu bod rhaid i chi roi'r gorau i reolaeth. Fel arfer dim ond ar ôl iddo gael ei chofrestru y bydd yr atwrneiaeth yn dod i rym.
- Gallwch ganslo'ch atwrneiaeth ar unrhyw adeg. Ond mae'n rhaid bod gennych chi'r galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw.
- Mae'n cymryd oddeutu 8 i 10 wythnos i gofrestru atwrneiaeth barhaol, felly nid yw'n syniad da aros nes bod rhywun yn dangos arwyddion ei fod yn colli galluedd meddyliol.

Os yw sefydlu atwrneiaeth barhaol yn rhywbeth rydych chi am ei archwilio ymhellach gyda'ch gilydd, edrychwch ar ein [canllaw atwrneiaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am y pwnc.

Os ydych chi'n poeni am sut y gallai'r person rydych chi am siarad ag ef ymateb a bod arnoch angen help ar sut i drin sgwrs ar faterion arian a gofal pan fyddwch chi'n heneiddio, darllenwch ein canllaw Sut i siarad am arian.

Helpwr Arian

Arian bob dydd

Mae HelpwrArian yma i wneud eich arian a ch dewisiadau pensiwn yn gliriach. Yma i ch rhoi mewn rheolaeth gyda chymorth diduedd sydd ar eich ochr chi, gyda chefnogaeth y llywodraeth ac yn rhad ac am ddim i w ddefnyddio.



Ffôn **0800 138 0555***



Typetalk **18001 0800 915 4622***

Llun i Wener, 8am to 6pm

Am ragor o help gweler ein canllawiau ar ein gwefan:

- Siarad â chi ch hun am arian
- Siarad â ch partner am arian
- Siarad â ffrindiau am arian
- Siarad â phobl hŷn am arian

Darparwyd gan



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

* Mae galwadau am ddim. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon i chi, felly gellir recordio neu fonitro galwadau at ddibenion hyfforddi ac i'n helpu i ddatblygu ein gwasanaethau.

Ref: MH RS0004W